

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF**

GWŶS I GYFARFOD

**P J Lucas
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach CF40 2XX**

Ffôn (01443) 424099 – Mrs Z.Maisey

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, **Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, brynhawn Mercher, 23 Mawrth 2016 am 5.00 p.m.**

AGENDA

Tudalennau

DATGAN BUDDIANT

- 1** Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2 CYHOEDDIADAU

3 COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2016 yn rhai cywir.

1 - 3

4 LLYWODRAETHU AGORED:

5 DATGANIADAU yn unol â gofynion Rheol Dull Gweithredu 2

Derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r Cabinet mae gyda nhw gyfrifoldebau gweinyddu.

6 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

- (a) **Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol C.Davies i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant, Cydraddoldeb, a'r Gymraeg (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G.Hopkins)**

A wnewch chi ddatganiad ar eich cyfrifoldebau mewn perthynas â chyfleoedd cyfartal ac anabledau?

- (b) **Cwestiwn Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol M.Norris i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol M.Webber)**

Yn dilyn cyflwyno system cofrestru etholiadau unigol gan Lywodraeth San Steffan, beth mae'r Cyngor wedi bod yn ei wneud ynghylch hyrwyddo cofrestru etholiadol yn ein Bwrdeistref Sirol?

- (c) **Cwestiwn Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol L.M.Adams i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol M.Webber)**

A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ddatganiad ar brosesau gwneud penderfyniadau y mae'r Cyngor yn eu gweithredu?

- (ch) **Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J.Bonetto i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant, Cydraddoldeb, a'r Gymraeg (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G.Hopkins)**

A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ddatganiad ar Fesur y Gymraeg sydd i ddod i rym yn fuan?

- (d) **Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.L.Davies, MBE, i Arweinydd y Cyngor (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).**

A wnaiff yr Arweinydd ddatganiad ar ei swyddogaethau a chyfrifoldebau?

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

- 7 Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg – Cyflwyno Apêl o dan Adran 54 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

Trafod adroddiad ar y cyd Ysgrifennydd i'r Cabinet a Chyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes

8	Enwebiadau ar gyfer Rhyddfraint y Fwrdeistref Sirol	
	Trafod adroddiad y Prif Weithredwr	25 – 28
9	Pecynnau Ymddeol yn Gynnar o Wirfodd a Diswyddo ar gyfer Prif Swyddogion	
	Trafod adroddiad y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol.	29 – 34
10	Datganiad 2016-2017 y Cyngor ar Bolisi Cyflogau	
	Trafod adroddiad ar y cyd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol	35 – 44
11	Rhaglen Gyfalaf Tair Blynedd y Cyngor 2016/17 - 2018/19	
	Trafod adroddiad y Cabinet.	45 – 68
12	Strategaeth Cylch Rheoli'r Trysorlys gan gynnwys Strategaeth Buddsoddi Blyneddol a Mynegyddion Materion Darbodusrwydd a Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) ar gyfer 2016/17	
	Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen.	69 – 100
13	Darpariaeth is-ddeddfau ar aciwbigo, tatŵio, lliwio croen yn lled barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis	
	Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant.	101–116
14	RHYBUDD O GYNNIG	
	Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P.Jarman, G.Davies, C.Davies, E. Webster, S.Evans-Fear, S.Rees-Owen, M.Weaver, K.Morgan ac I.Pearce:-	
	"Mewn ymgais i gefnogi'r Diwydiant Dur yng Nghymru, bydd y Cyngor hwn yn y dyfodol, yn ei gwneud hi'n glir yn ei ddogfennau manyleb ar gyfer contractau a thendro, mai'i ddewis orau yw y dylai'r dur sydd ei angen ar gyfer gwaith a strwythurau ddod o weithfeydd dur Cymru".	

15 RHYBUDD O GYNNIG

Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P.Jarman, G.Davies, C.Davies, E. Webster, S.Evans-Fear, S.Rees-Owen, M.Weaver, K.Morgan ac I.Pearce:-

“Mewn ymgais i wella'r profiad teithio ar gyfer y rheiny sy'n cymudo o Rondda Cynon Taf i Gaerdydd ar drenau, bydd y Cyngor hwn yn mynegi pryderon mawr i Brif Weithredwr cwmni Trenau Arriva Cymru ac i Lywodraeth Cymru.”

16 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:


“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.”

17 Adolygiad o Strwythur Uwch Reolwyr y Cyngor

Trafod adroddiad y Prifweithredwr a Chyfarwyddwr Adnoddau Dynol, sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig.

117 - 154

18 Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.



Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

At: Pob aelod o'r Cyngor

16 Mawrth 2016